

Dyddiadur dwy Ganrif

GADAEL LLŶN

Ar ôl ymddangosiad erthygl mis Tachwedd yn "Llanw Llŷn", bu imi dderbyn amryw o alwadau ffôn ac ambell i lythyr. Braf yw gweld eich bod yn mwynhau'r gyfres a chofiwch fod y llinell ffôn yn dal ar agor: 770 373.

Un o'r galwadau ffôn a dderbyniais oedd gan Mr. Evan Williams o Langian, yn fy hysbysu bod ganddo yn ei feddiant hen lythyrau a dogfennau a allai fod o ddiddordeb i mi. Wel, dyna wledd a gefais yn pori yn yr hen bapurau ac yn gwrando ar yr hanesion a adroddodd Mr. Williams wrthyf oddi ar ei gof. Roedd y croeso a dderbyniais ar aelwyd Mr. a Mrs. Williams yn ddiffuant.

Ymysg y llythyrau roedd dau o Ogledd America â chysylltiadau â Llŷn, er nad oedd gan y naill ddim i'w wneud a'r llall, a bod pum mlynedd a thrigain o amser rhyngddynt. Cytundeb a gafodd ei lunio yn Efrog Newydd oedd y cyntaf, rhwng Edward Jones, ei wraig Margaret, yr hon oedd ferch i Anne Hughes, Ty Fair, Bryn croes, a John Williams, mab hynaf Anne Hughes, y tri wedi ymfudo i'r America - a Richard Evan, Penrhos, Bryn croes. Ymddengys bod Richard Evan yn prynu darn o dir a enwir Yr Ardd neu Llain-y-Bustl, am bris o £80 yn arian y wlad yma. Disgrifir lleoliad y tir ar derfyn Fronheulog, a berthynai i William Jones, a therfyn Pant-y-Gwrl, eiddo i Henry Hughes. Mae'r ail lythyr, a anfonwyd oddi wrth Richard Jones at ei frawd Richard Parry, Siop Goch, Pwllheli yn llawer mwy diddorol.

Anfonwyd y llythyr o Efrog Newydd ar Fai laf 1805. Hoh mae'r ysgrifennwr am ei dad a beth oedd ei sefyllfa, ac mae'n anfon ei gofion gorau ato, hefyd at ei chwaer Mary a'i frodyr John ac Evan, yn ogystal â David Parry, Thomas Roberts a phobun a fyddai yn holi amdano. Aiff ymlaen i sôn am ei wraig a'i diffyg dealltwriaeth o'r Saesneg, ond dywed bod Jane fach gartre gyda hwy a'i bod hi yn medru darllen ac ysgrifennu yn yr iaith fain.

Canmol y wlad newydd a wna Richard Jones gan fod digonedd o waith yno i bawb a chyflogau da i'r sawl oedd yn fodlon gweithio, gyda thiroedd ffrwythlon a threthi isel, oddeutu ugain ceiniog yn y bunt. Doedd gan R. Jones ond urgwyn, sef mai yn Saesneg y pregethid ran amlaf a dim ond ambell dro yn ei iaith gyntaf. Un o'r Cymry alltud na ddychwelodd oedd y llythyrwr, mae'n debyg, gan iddo ddatgan na welai neb byth mohono eto yn yr hen wlad.


Roedd wedi gwerthu ei fferm ac wedi elwa yn dda o'r gwerthiant ac roedd yn prynu tŷ yn ninas Efrog Newydd, meddai. Teimlai ei bod yn llawer iawn gwell yn yr America nag yn yr hen wlad. Terfyna ei lythyr trwy ddatgan nad yw yn gwahodd ei deulu trosodd rhag ofn i anffawd ddigwydd iddynt ar eu taith ac iddynt daflu'r bai arno ef ar ôl hynny, ond y buasai'n falch iawn o gael eu gweld serch hynny. Efallai bod Richard Jones a'i deulu wedi cael profiadau chwerw wrth groesi Môr yr Iwerydd.

Byddai llongau llechi a hwyliai o Gaernarfon a Phorth Penrhyn yn cael enw drwg a hawdd yw deall pryder R.J. Collwyd llawer i ymfudwr trwy longddrylliad a salwch, gan mai taith ddigon digysur a dweud y lleiaf oedd y fordaith i'r wlad newydd a lifeiriai o laeth a mêl. Ymysg y balast llechi o dan y deciau y teithiai y rhai na fedrent fforddio talu eu ffordd trosodd. Doedd dim darpariaeth fel lle i ymolchi a gwneud dyletswyddau angenrheidiol eraill; digon prin oedd y bwyd hefyd a cheir cofnodion o golera ac afiechydon marwol eraill yn torri allan.

Byddai i rai teuluoedd gael eu cludo trosodd am ddim, ond iddynt wneud cyfamod â'r Capten y byddent yn fodlon gweithio yn ddi-dâl am gyfnod hyd at dair blynedd ar ôl cyrraedd. Câl y Capten ei dalu yn dda gan berchenogion y ffermydd a'r planhigfeydd mawrion, a byddai'r trueiniaid hyn yn wynebu blynyddoedd o gaethwasiaeth ar ôl cyrraedd y wlad newydd.

Âi eraill trosodd ar gost y plwyf, pe bai i'r teulu fod yn ddegnu fwy o aelodau. Mae'n debyg bod un taliad terfynol yn well i goffrau'r plwyf na cheisio eu cynnal am amser maith.

Ymysg y degau o longau a hwyliai yn gyson, roedd y llong 'Hindoo' a berthynai i H. Owen, Rhyddgaer, Ynys Môn dan ofalaeth ei meist, y Capten Richard Hughes. Roedd llawer o Sôn amdani fel llong gyflym. Hysbyseb y gwahanol longau mewn tafarndai a siopau yn aml, ac un o'r rhain oedd y brig 'Marquis of Anglesey', 167 tonnell. Ymysg y cyfranddalwyr a dalodd am ei hadeiladu yng Nghaernarfon yn 1815, roedd pump o Llŷn.



Poster a ymddangosodd yn Nhafarn y Cross Keys Pwllheli

Llong adnabyddus am gludo teithwyr yn y cyfnod 1843 oedd y 'Gwen Evans', 500 tonnell a lywyddid gan David Evans, Fuches Wen, Talsarnau. Fe'i hadeiladwyd hi i'r pwrpas o gario ymfudwyr yn iard Robert Evans, Pwllheli tua chanol y flwyddyn 1842. Ysgrifennwyd

hanes un o'i theithiau cyntaf yn y Caernarfon and Denbigh:

C. & D. Herald Sept. 3. 1843

"For the information of the friends of passenger-s who lately went out in the ship Gwen Evans to America, we are happy to state that the said vessel arrived safely at Boston, the passengers all well except one 18 month old, the daughter of Thomas Buckingham of Penygroes, Llanllyfni."

Gwahanol iawn fu taith Griffith Williams, brodor o Llŷn, yn ôl yr hyn a gofnododd ef ar fwrdd y New York Packet: Cychwyn o Lerpwl ar Fai 23ain 1840; Storm rhwng Iwerddon a'r Alban; gorfod troi'n ôl ar yr 28ain i gyfyngfor Iwerddon ac aros yno hyd Mehefin 3ydd; gwynt ar y 10fed, 13eg, 16eg a'r 21ain; amryw o farwolaethau ar Fehefin 24ain; y Gwyddelod yn bygwth taflu'r Saeson, y Cymry a'r Albaniaid tros y bwrdd; y rhan fwyaf yn gleifion ar y llong erbyn Awst 5ed ac eraill yn gwrthod glanio.

Oddeutu'r flwyddyn 1825 cofnododd Robert Hughes, Moel y Berth hanes yr ymfudo o blwyf Llangwinnadl pan adawodd hanner cant o'r plwyfolion, aelodau o gapel M.C. Penygraig, gyda'i gilydd. Yn ôl ei eiriau roedd y teimladau yn ddwys gyda theuluoedd a pherthnasau yn cofleidio ac yn wylo. Cynhaliwyd cyfarfod gweddi yn yr awyr agored - y fath gyfarfod gweddi nes bo'r bloeddiadau yn rhwygo'r awyr! Rhoddydd Pennill allan i'w ganu gyda'r teimladau mwyaf drylliog:

Ffarwel, gyfeillion annwyl iawn
Tros enyd fechan ymadawn
Henffych i'r dydd cawn eto gwrdd
Yn Salem lân oddeutu'r bwrdd.

Gwasgarodd y dorf a chychwynnodd yr ymfudwyr ar eu taith, rhai i Remisen, lle ceir hanes i gapel o'r enw Pen y Graig gael ei sefydlu yn 1828; eraill i Steuben a thaleithiau cyffelyb lle y ceir hyd heddiw enwau lleoedd Cymraeg fel Penycaerau, Nant, Enlli, Penrhiwdar, yr dystion bod pobl Llŷn wedi sefydlu yno.

Gwilym Felin,
Tudweiliog.

CYLCH LLENYDDOL LLŶN

Ers i'r adroddiad diwethaf ymddangos yn y Llanw cynhaliwyd dau gyfarfod. Bu un ym Mhlas Glyn y Weddw, ar Dachwedd 3ydd, pan ddaeth Dewi Evans, Aberdaron o Goleg y Brifysgol, Dulyn, atom i drafod Cysylltiadau Celtaidd T Gwynn Jones. Cadeirydd y noson oedd Gruffudd Parri, diolchwyd gan Huw Roberts, a gwnaed y trefniadau lleol gan Penri a Mair Jones. Cynhaliwyd y cyfarfod arall yn festri Capel Rhydbach ar Ragfyr laf, gyda'r Parch. Aled Jones Williams yn sôn am Ddrama, dan gadeiryddiaeth Huw Roberts, a merched y capel yn gwneud y trefniadau lleol. Bu'r ddau gyfarfod yn hynod o ddiddorol.

Ar Chwefror 2, 2001 daw Wendy Lloyd Jones atom i sôn am lenyddiaeth Eingl-Gymreig (gweler yr hysbyseb) yng Nghanolfan Llanestyn.